| *At ddefnydd y swyddfa'n unig*<br>Rhif yr Apêl: | |
|---|---|

## HYSBYSIAD APÊL -- RHESTR ARDRETHU 2023

**PWYSIG: GOFYNNIR I CHI DDARLLEN YR ADRAN HON CYN CWBLHAU'R FFURFLEN**

**Ceir cyflwyno apêl i'r Tribiwnlys Prisio o dan yr amgylchiadau canlynol yn unig.**

- Rydych wedi gwneud cynnig ffurfiol i Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA)[1] i newid y rhestr ardrethu ac mae'r VOA wedi methu â rhoi penderfyniad terfynol i chi ar y mater o fewn 18 mis i chi wneud eich cynnig (neu erbyn dyddiad hwyrach os ydych wedi cytuno ar un).

- Rydych wedi gwneud cynnig ffurfiol i Asiantaeth y Swyddfa Brisio i newid y rhestr ardrethu ac mae'r VOA wedi cyflwyno penderfyniad terfynol ar y mater yr ydych yn anghytuno ag ef.

- Rydych wedi derbyn Hysbysiad Cosb gan y VOA ac nad ydych yn credu ei bod yn iawn gosod cosb.

Os yw un o'r amgylchiadau uchod yn gymwys i chi, cewch ddefnyddio'r ffurflen hon i gofrestru apêl gyda'r Tribiwnlys Prisio (TP). **Mae terfynau amser o ran cofrestru apêl gyda'r TP**. Os ydych yn apelio o dan y ddau amgylchiad cyntaf sy'n cael eu disgrifio uchod, rhaid i chi gofrestru eich apêl O FEWN PEDWAR MIS i'r amgylchiad perthnasol godi. Yn achos Hysbysiad Cosb, mae gennych 28 DIWRNOD o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad i apelio.

GALL apelau hwyr gael eu derbyn gan Lywydd y Tribiwnlys, ond mewn achosion lle dangosir yn glir fod yr oedi wrth wneud yr apêl wedi codi oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y ceisydd yn unig. Rhaid rhoi'r rhesymau am gyflwyno'r apêl yn hwyr ar y ffurflen ac mae penderfyniad y Llywydd i dderbyn apêl hwyr neu beidio yn derfynol.

Gellir dod o hyd i ganllawiau sy'n ymdrin â'r wybodaeth sydd ei hangen ar adran benodol yn y ffurflen hon ar ddiwedd y ddogfen hon.

| | | |
|---|---|---|
| **A ydych yn apelio o dan yr amgylchiad cyntaf sy'n cael ei ddisgrifio uchod?** | | **Os “Ydw”,<br>cwblhewch Adrannau A a B** |
| **A ydych yn apelio o dan yr ail amgylchiad sy'n cael ei ddisgrifio uchod?** | | **Os “Ydw”,<br>cwblhewch Adrannau A ac C** |
| **A ydych yn apelio Hysbysiad Cosb?** | | **Os “Ydw”,<br>cwblhewch Adrannau A ac CH** |
| **A ydych yn gwneud apêl hwyr?**<br>***(h.y. y tu allan i'r terfyn amser 28 diwrnod neu 4 mis deddfwriaethol)*** | | **Os “Ydw”,<br>cwblhewch Adran D** |

[1] Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) yw'r asiantaeth sy'n gyfrifol am lunio a chadw'r rhestr ardrethu.

## Adran A – Manylion Personol

Rhowch eich manylion i mewn isod **-** ***DS*** *Os ydych yn cwblhau'r adran hon ar ran rhywun arall, ysgrifennwch eu manylion yn y blwch isod, os gwelwch yn dda*.

| | |
|---|---|
| **Enw Llawn** | |
| **Cyfeiriad eiddo'r apêl:** | |
| **Manylion Cyswllt** | |
| **Cyfeiriad:** | |
| **Rhif Ffôn:** | |
| **Cyfeiriad Ebost:** | |

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt y Cynrychiolydd:** ***(os yn berthnasol)*** | |
| **Manylion Cyswllt y Cynrychiolydd** | |
| **Cyfeiriad:** | |
| **Rhif Ffôn:** | |
| **Cyfeiriad Ebost:** | |

A ydych yn rhoi eich awdurdod i'r person a enwir uchod weithredu ar eich rhan ynglŷn â'r apêl hon?

| Ydw | Nac Ydw |
|---|---|
| ☐ | ☐ |

Sut byddai'n well gennych chi neu'ch cynrychiolydd i ni gysylltu â chi?

| | Chi | Cynrychiolydd |
|---|---|---|
| **Post:** | ☐ | ☐ |
| **Ffôn:** | ☐ | ☐ |
| **Ebost:** | ☐ | ☐ |

## Adran B – NID yw'r VOA wedi cyflwyno Hysbysiad Penderfynu

*[D.S. Dylid cwblhau'r broses o herio cofnod yn y Rhestr Ardrethu o fewn 18 mis neu erbyn dyddiad terfyn hwyrach a gytunwyd gyda'r VOA. Os* ***nad yw'r*** *VOA* ***wedi cyflwyno hysbysiad penderfynu terfynol*** *o fewn y cyfnod 18 mis neu'r cyfnod estynedig, gallwch ddefnyddio'r adran hon i apelio i'r TP. Rhaid i apelau gael eu cyflwyno o fewn 4 mis i ddiwedd y cyfnod herio.]*

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod y VOA:** | |
| **Y dyddiad i chi gyflwyno eich heriad (cynnig i newid y rhestr ardrethu):** | |
| **Dyddiad terfyn arall a gytunwyd gyda'r VOA (os oes un):** | |

Ar ba seiliau ydych chi'n gwneud yr apêl hon? (Marciwch y blwch perthnasol, os gwelwch yn dda)

| | |
|---|---|
| ☐ | Nid yw'r prisiad ar gyfer yr hereditament yn rhesymol |
| ☐ | Mae'r rhestr yn anghywir am ryw reswm arall |
| Defnyddiwch y blwch isod i nodi pa fanylion o'r seiliau ar gyfer eich cynnig sydd heb eu cytuno gyda'r VOA: | |
| | |

Mae angen i chi gyflwyno'r dogfennau canlynol gyda'ch apêl. Marciwch y blychau i ddangos eich bod wedi gwneud hynny.

| | |
|---|---|
| ☐ | Copi o'ch cynnig ac unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth a gyflwynwyd i'r VOA yn ystod y cyfnod herio |
| ☐ | Copi o unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth a roddwyd i'r cynigydd gan y VOA yn ystod y cyfnod herio |
| ☐ | Datganiad yn tynnu sylw at y materion mewn anghydfod a darparu tystiolaeth ategol a'r pwyntiau allweddol y dibynnir arnynt. |

*[**DS** – Os yw'r apêl hon yn cael ei chyflwyno'n hwyrach na'r terfyn amser 4 mis y cyfeiriwyd ato uchod, **rhaid** i chi gwblhau **Adran D** hefyd i ofyn am estyniad i gyfyngiad amser yr apêl.]*

## Adran C – MAE Hysbysiad Penderfynu WEDI cael ei gyflwyno gan y VOA

*[D.S. Dylid cwblhau'r broses o herio cofnod yn y Rhestr Ardrethu o fewn 18 mis neu erbyn dyddiad terfyn hwyrach a gytunwyd gyda'r VOA. Os* ***yw'r*** *VOA* ***wedi cyflwyno hysbysiad penderfynu terfynol*** *o fewn y cyfnod 18 mis neu'r cyfnod estynedig, gallwch ddefnyddio'r adran hon i apelio i'r TP. Rhaid i apelau gael eu cyflwyno o fewn 4 mis i ddiwedd y cyfnod herio.]*

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod y VOA:** | |
| **Y dyddiad i chi gyflwyno eich heriad (cynnig i newid y rhestr ardrethu):** | |
| **Dyddiad Hysbysiad Penderfynu'r VOA:** | |

Ar ba seiliau ydych chi'n gwneud yr apêl hon? (Marciwch y blwch perthnasol, os gwelwch yn dda.)

| | |
|---|---|
| ☐ | Nid yw'r prisiad ar gyfer yr hereditament yn rhesymol |
| ☐ | Mae'r rhestr yn anghywir am ryw reswm arall |

Beth yw'ch rheswm am wneud yr apêl hon? (Marciwch y blwch perthnasol, os gwelwch yn dda.)

| | |
|---|---|
| ☐ | Mae'r Swyddfa Brisio wedi penderfynu peidio â newid y rhestr yn dilyn eich cynnig |
| ☐ | Mae'r Swyddfa Brisio wedi penderfynu newid y rhestr yn dilyn eich cynnig ond nid yn y ffordd yr oeddech wedi dymuno |

Gofynnir i chi gyflwyno'r dogfennau canlynol gyda'ch apêl. Marciwch y blychau i ddangos eich bod wedi gwneud hynny.

| | |
|---|---|
| ☐ | Copi o'r Hysbysiad Penderfynu a dderbyniwyd gan y VOA |
| ☐ | Copi o'ch cynnig ac unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth a gyflwynwyd i'r VOA yn ystod y cyfnod herio |
| ☐ | Copi o unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth a roddwyd i'r cynigydd gan y VOA yn ystod y cyfnod herio |
| ☐ | Datganiad yn tynnu sylw at y materion mewn anghydfod a darparu tystiolaeth ategol a'r pwyntiau allweddol y dibynnir arnynt. |

Os bydd unrhyw un o'r dogfennau a restrir uchod wedi'i chynnwys o fewn Hysbysiad Penderfynu'r VOA, nid oes angen darparu copïau dyblyg o'r deunydd hwn.

*[**DS** – Os yw'r apêl hon yn cael ei chyflwyno'n hwyrach na'r terfyn amser 4 mis y cyfeiriwyd ato uchod,* ***rhaid*** *i chi gwblhau* ***Adran D*** *hefyd i ofyn am estyniad i gyfyngiad amser yr apêl.]*

## Adran CH – Mae'r VOA wedi cyflwyno apêl yn erbyn Hysbysiad Cosb

| O ran yr eiddo a enwyd yn yr Hysbysiad Cosb, ai chi yw: | | |
|---|---|---|
| *[**DS** os mai chi yw'r perchennog a'r meddiannydd, atebwch "Ie" yn y ddau flwch, os gwelwch yn dda]* | y Perchennog | ☐ |
| | y Meddiannydd | ☐ |

| Y dyddiad y cyflwynwyd yr Hysbysiad Cosb | |
|---|---|

*[**DS rhaid** cyflwyno copi o'r hysbysiad cosb gyda'r ffurflen apêl wedi'i chwblhau. Bydd methu â chyflwyno hwn yn golygu oedi wrth gofrestru eich apêl.]*

| Defnyddiwch y blwch isod i esbonio eich rhesymau am apelio |
|---|
| |

*[**DS** – Os yw'r apêl hon yn cael ei chyflwyno'n hwyrach na'r terfyn amser 28 diwrnod, **rhaid** i chi gwblhau **Adran D** hefyd i ofyn am estyniad i gyfyngiad amser yr apêl.]*

## Adran D – Rheswm am gais hwyr

| Defnyddiwch y blwch isod i esbonio pam na chafodd yr apêl ei chyflwyno o fewn y terfyn amser a nodwyd: |
|---|
| |

| *At ddefnydd y swyddfa yn unig:* | |
|---|---|
| Dyddiad cyflwyno i Lywydd y TP i'w ystyried: | |
| Awdurdodi'r Cais: | |
| Dyddiad Awdurdodi'r Cais: | |
| Gwrthod y Cais: | |
| Dyddiad Gwrthod y Cais: | |

## Nodiadau Canllaw

**Gofynnir i chi ddarllen yr wybodaeth yma yn ofalus. Gall fod o gymorth i chi.**

**Cyn cwblhau'r ffurflen hon** rhaid i chi sicrhau eich bod wedi dilyn y gweithdrefnau ar gyfer y camau Gwirio a Herio gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA).

**Nodiadau i'ch helpu i lenwi'r ffurflen apêl**

**Adrannau A** – Mae angen cwblhau'r adran hon ym mhob achos a dylid rhoi enw'r person (yr apelydd) sy'n codi anghydfod am yr Hysbysiad i'r Tribiwnlys. Hefyd, mae'n caniatáu i'r apelydd roi gwybod i'r TP am fanylion unrhyw un maent yn ei awdurdodi i weithredu ar eu rhan ac a all fod yn eu cynrychioli o ran yr apêl hon.

Bydd y TP yn defnyddio'r manylion hyn i gofrestru'r apêl hon a chofnodi'r dull cyfathrebu a ffefrir.

**Adran B – NID yw'r VOA wedi cyflwyno Hysbysiad Penderfynu**

Gofynnir i chi ddefnyddio'r adran hon os bydd heriad wedi'i gyflwyno i'r VOA ond nad ydych wedi derbyn Hysbysiad Penderfynu o fewn 18 mis neu erbyn y dyddiad terfyn a gytunwyd ar gyfer cwblhau'r cam herio. Mae'n bwysig rhoi gwybod i ni os bydd dyddiad terfyn arall wedi'i gytuno achos gallai hyn effeithio ar yr hawl i apelio.

Rhaid cyflwyno'r apêl hon o fewn 4 mis i'r cyfnod amser 18 mis neu'r dyddiad terfyn a gytunwyd ar gyfer cwblhau'r broses herio.

Defnyddiwch y blwch ticio sy'n cael ei ddarparu i roi gwybod i ni am seiliau'r apêl a defnyddiwch y blwch a roddir i nodi manylion y seiliau nad ydynt wedi'u cytuno gyda'r VOA.

Peidiwch ag anghofio i amgáu'r dogfennau priodol wrth gyflwyno eich ffurflen. Ni fydd y TP yn medru cofrestru eich apêl heb yr wybodaeth yma.

**Adran C – MAE Hysbysiad Penderfynu WEDI cael ei gyflwyno gan y VOA**

Mae'r adran hon yn caniatáu i chi apelio'r Hysbysiad Penderfynu a gyflwynwyd i chi gan y VOA. Rhaid gwneud yr apêl hon o fewn 4 mis i ddyddiad cyflwyno'r Hysbysiad. Felly mae'n bwysig cynnwys copi o'r Hysbysiad Penderfynu sy'n cael ei Herio wrth gyflwyno'r ffurflen hon.

Defnyddiwch y blychau ticio sy'n cael eu darparu i roi gwybod i ni am y seiliau a'r rhesymau am yr apêl hon.

Peidiwch ag anghofio i amgáu'r dogfennau priodol wrth gyflwyno eich ffurflen. Ni fydd y TP yn medru cofrestru eich apêl heb yr wybodaeth yma.

**Adran CH – Mae'r VOA wedi cyflwyno apêl yn erbyn Hysbysiad Cosb**

Gall Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) gyflwyno hysbysiad cosb i berchennog neu feddiannydd eiddo os ydynt yn methu â darparu gwybodaeth sydd ei hangen arni i brisio eiddo ar gyfer ardrethi annomestig neu os ydynt yn darparu gwybodaeth ffug yn ystod y gweithdrefnau Gwirio neu Herio.

Gofynnir i chi gwblhau'r manylion yn Adran CH a dychwelyd y ffurflen hon gyda chopi o'r hysbysiad cosb o fewn 28 diwrnod i dderbyn yr hysbysiad gan y VOA.

Gofynnir i chi esbonio'r rhesymau am apelio yn y blwch a ddarperir. Os nad oes digon o le, gallwch atodi taflen ar wahân i roi manylion llawn am yr apêl. Ar gyfer apelau Hysbysiad Cosb Atodlen 9 dylai'r rhesymau esbonio naill ai nad yw'r wybodaeth yma gennych, fod gennych esgus rhesymol am beidio â'i darparu erbyn y terfyn amser neu ei bod wedi'i darparu fel y gofynnwyd. Gofynnir i chi roi prawf o anfon yr wybodaeth os dadleuir eich bod wedi ei darparu. Yn achos Apeliadau Hysbysiad Cosb Rhan 2 dylai'r rhesymau esbonio na ddarparwyd yr wybodaeth i'r VOA yn fwriadol, yn ddi-hid neu'n ddiofal.

**Adran D – Rheswm am gais hwyr**

Rhaid gwneud apêl o fewn 4 mis i ddyddiad cyflwyno Hysbysiad Penderfynu neu o fewn 4 mis i ddiwedd y cyfnod 18 mis a ganiateir ar gyfer cwblhau'r cam herio gan y VOA. Os cytunwyd i ddyddiad terfyn hwyrach i'r cam herio rhyngoch chi a'r VOA a na chyflwynwyd Hysbysiad Penderfynu, bydd y terfyn amser 4 mis i'r apêl yn rhedeg o'r dyddiad hwyrach hwn a gytunwyd. Os ydych wedi methu â gwneud yr apêl o fewn y raddfa amser a nodwyd ac os oes gennych reswm da am ei chyflwyno'n hwyr, dylech gwblhau Adran D. Fodd bynnag, os ydych yn apelio Hysbysiad Cosb rhaid i chi apelio o fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyflwyno'r hysbysiad hwnnw.

Yn Adran D mae angen i chi esbonio'r rhesymau y tu ôl i gyflwyno'r apêl hon yn hwyr.

Wedyn cyflwynir y ffurflen apêl i Lywydd y TP a all awdurdodi ystyried yr apêl allan o amser os yw'n gweld yn dda. Os cyflwynir tystysgrif yn awdurdodi cofrestru'r apêl hon, defnyddir y manylion yn Adran B, C, neu CH i gofrestru eich apêl, a thrwy hynny osgoi unrhyw oedi pellach.

## DIOGELU DATA

Mae Tribiwnlys Prisio Cymru (TPC) yn rheolydd data o dan y Ddeddf Diogelu Data. Yr ydym yn cadw gwybodaeth am resymau cyfreithiol, er enghraifft, er mwyn galluogi'r Tribiwnlys Prisio i wneud penderfyniadau am apelau. Mae'n ofynnol i ni gadw cofnodion o'r penderfyniadau hyn am gyfnod o chwe blynedd.

Pan dderbyniwn eich apêl, gall fod angen i ni gael hyd i wybodaeth amdani gan y Cyngor neu Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA). Bydd hyn yn ein helpu i ymdrin â'ch apêl cyn gynted ag y bo modd. Yn ôl y gyfraith, rhaid i ni anfon copi o'ch apêl at y Cyngor neu'r VOA hefyd.

Byddwn ond yn defnyddio'r wybodaeth a gawn gennych chi, y Cyngor neu'r VOA mewn perthynas â'ch apêl chi.

**Noder:** Nid ydym yn dychwelyd unrhyw ddogfennau rydych chi'n eu hanfon atom oni wneir cais penodol gennych ar ddechrau proses yr apêl. Caiff pob dogfen ei sganio, ei llarpio a'i gwaredu yn ddiogel, felly peidiwch ag anfon dogfennau gwreiddiol atom.

## GWYBODAETH YCHWANEGOL

Nid yw'r nodiadau hyn yn rhoi manylion llawn y gyfraith. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth ar wefan y TP:

www.tribiwnlysprisio.cymru

Os oes angen gwybodaeth bellach neu gymorth wrth gwblhau'r ffurflen, gofynnir i chi gysylltu â Swyddfa'r TP - mae'r manylion isod.

Tribiwnlys Prisio Cymru
22 Gold Tops
CASNEWYDD
NP20 4PG

Ffôn: 01633 255003

E-bost: gohebiaeth@tribiwnlysprisio.cymru